# CYD-GERDDWCH Â CHYFUNDREFN UNEDIG JEHOFA

*Nodyn i'r siaradwr:*
Enynna werthfawrogiad am gyfundrefn Jehofa, y rhannau nefol a daearol. Ysgoga yn y gynulleidfa'r awydd i ddod yn rhan o gyfundrefn Jehofa, ac i gyd-gerdded ynddi am byth!

**DUW O DREFN YW JEHOFA** (6 mun.)

Mae sêr a phlanedau'r gofod yn dysgu ni mai Duw trefnus yw Jehofa (Job 38:31-33; *w11*-E 7/1 26-28)

- Mae'r sêr wedi eu trefnu fesul galaeth, a'r galaethau fesul clwstwr, ac yn y blaen (*w14*-E 5/15 22 ¶3)

Mae trefn i'r angylion ffyddlon (Sal 103:20, 21; Da 7: 10)

Mae pobl Jehofa ar y ddaear yn drefnus hefyd (1Co 14:33, 40)

**MAE CYFUNDREFN JEHOFA YN GYTÛN** (10 mun.)

Yn y nefoedd ac ar y ddaear, mae cyfundrefn Jehofa yn unol wrth wneud ei ewyllys

- Mae'r ddwy ran yn cyd-weithio wrth bregethu'r newydd da i bobl o bob iaith (1Ti 2:3, 4; Dat 14:6, 7; *bt*-E 57-59 ¶14-18)
  - O ganlyniad, mae'r newydd da wedi ei gyfieithu i gannoedd o ieithoedd

Pwrpas Jehofa yw uno'r holl greadigaeth, yn y nefoedd ac ar y ddaear **[Darllena Effesiaid 1:8-10]** (*w12*-E 7/15 27-28 ¶3-5)

- Y cam cyntaf yw casglu "pob peth yn y nefoedd," sef yr eneiniog a fydd yn rheoli gyda Christ yn y nefoedd
- Yr ail gam yw casglu pob beth "ar y ddaear," sef y rhai sydd â gobaith o fyw mewn Paradwys ar y ddaear

Sut gallwn ni gyfrannu'n bersonol at yr undod sy'n datblygu nawr?

- Cydweithiwch â threfn Jehofa sy'n uno ei greadigaeth ddeallus **[Darllena Effesiaid 4:1-3]**
  - Datblygwch nodweddion sy'n hybu undod a heddwch, sef gostyngeiddrwydd, addfwynder, amynedd, a chariad
  - I'r gwrthwyneb, mae balchder dros wlad, hil, llwyth, a diwylliant yn achosi cynnen rhwng pobl (*w15*-E 5/15 15-16 ¶4-8)
    - Gallwn oresgyn y fath falchder, yna cawn fwynhau undod gyda Jehofa a'i gyfundrefn (Dia 16:5; Iag 4:6)

**MAE CYFUNDREFN JEHOFA YN LLAWN EGNI** (8 mun.)

Cafodd Eseciel weledigaeth ogoneddus o ran nefol gyfundrefn Jehofa (Esec 1:1-28; *w13*-E 4/15 23-24 ¶6)

- Gall cerbyd nefol Jehofa symud a newid cyfeiriad fel mellten (Esec 1:12-19)
- Jehofa yw Marchog gogoneddus y cerbyd, ac Ef sy'n cyfeirio ei symudiad gyda'i ysbryd glân

Mae Jehofa hefyd yn cyfeirio rhan ddaearol ei gyfundrefn, ond beth yw'r dystiolaeth sy'n dangos hyn?

- Gwelliannau cyfundrefnol **[Darllena Eseia 60:17]** (*kr*-E 120-125 ¶11-18)
- Y nifer yn cynyddu **[Darllena Eseia 60:22]** (*kr*-E 96-97; ystadegau o'r *Yearbook* diweddaraf)

**DALIWCH ATI I GYD-GERDDED Â CHYFUNDREFN JEHOFA** (6 mun.)

Mae'n wir i ddweud bod pawb sy'n aelod o ran ddaearol cyfundrefn Jehofa yn amherffaith, ond llawer gwell yw canolbwyntio ar fodolaeth wyrthiol ein brawdoliaeth heddychlon a chytûn! (Sal 48:12-14; Mich 2:12; *w15*-E 7/15 9 ¶13)

- Rydyn ni'n profi'r fath undod yn ein cynulliadau, cynadleddau, a chyfarfodydd

Ar ôl dinistr byd Satan, un gyfundrefn yn unig fydd dros y nef a'r ddaear—cyfundrefn Jehofa!

- Yn fuan iawn, heddwch a harmoni fydd yn llywodraethu ym mhobman
- Ni fydd y rhai sy'n ochri gyda Satan y rebel a'i gyfundrefn yn bodoli mwyach

Bydd cyfundrefn Jehofa yn datblygu byth bythoedd

- Bydd y cynnydd presennol yn cyflymu ynghyd â'r digwyddiadau ysgytwol sydd i ddod (2Pe 3:10-13)
  - Yn y byd newydd, bydd agor sgroliau sy'n datgelu mwy am bwrpas Duw ar gyfer y ddynolryw (Dat 20:12; *re*-E 298-299 ¶14)

Dewch inni fod yn benderfynol o symud ymlaen am byth ar ochr gyfundrefn unedig Jehofa!

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School,* tudalennau 52-55, 166-169]

Rhif 3-W 9/15 I'W DRADDODI MEWN 30 MUNUD
© 2015 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania